Pecyn Gwybodaeth:

00349: Ymarfer Dethol Cofiaduron (Cylchdeithiau Gogledd Lloegr, Gogledd Ddwyrain Lloegr a Chymru) 2008

CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1
YDYCH CHI'N GYMWYS? 2
ADDASIADAU RHESYMOL.....4
DISGRIFIAD SWYDD 4
DEFNYDDIO.....6
GWYBODAETH BELLACH.....6
LLEOLIAD Y SWYDDI GWAG 7
Y BROSES DDETHOL 8
CYSYLLTIADAU A GWYBODAETH BELLACH.....10
CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y CPB.....11
COMISIYNWYR Y CPB 12

CYFLWYNIAD

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (CPB) yn awr yn gwahodd ceisiadau am y swydd Cofiadur. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydy 29 Ionawr 2008. Ceir 76 o swyddi gwag yn y tair cylchdaith ganlynol: Gogledd Lloegr, Gogledd Ddwyrain Lloegr a Chymru. Mae'r swyddi sydd i'w llenwi yn perthyn i sawl awdurdodaeth wahanol. Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn disgwyl rhedeg ymarfer dethol ar wahân i lenwi swyddi gwag yng Nghylchdaith Canolbarth Lloegr (a gynlluniwyd dros dro i ddechrau ym mis Gorffennaf 2008) ac yng Nghylchdaith De Ddwyrain Lloegr (a gynlluniwyd dros dro i ddechrau ym mis Ionawr 2009). Dangosir unrhyw newidiadau i'r cynlluniau dros dro hyn ar ein gwefan www.judicialappointments.gov.uk.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y wybodaeth y bydd ei hangen arnoch am y penodiadau. Mae'n cynnwys y meini prawf cymhwysedd a'r disgrifiad swydd. Mae hefyd yn disgrifio'r broses ddethol y bydd y CPB yn ei dilyn, gyda dyddiadau perthnasol a chyngor am sut i baratoi ar gyfer camau gwahanol y broses hon.

Cyn y gellir ystyried eich penodi, rhaid i chi fodloni rhai gofynion cymhwysedd. Mae'n rhaid i'r CPB hefyd asesu eich cymeriad. Cyn gwneud cais dylech ddarllen y gofynion hyn a'r canllawiau y mae'r CPB yn eu defnyddio i asesu cymeriad. Maent ar gael ar ein gwefan gydag ein telerau a'n hamodau gwasanaeth amlinellol a'r telerau penodi ar gyfer y swyddi hyn.

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol annibynnol sy'n dewis ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol. Bydd yn gwneud hynny ar sail teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, o blith y dewis ehangaf o ymgeiswyr cymwys.

YDYCH CHI'N GYMWYS?

I fod yn gymwys i'ch penodi'n Gofiadur, rhaid i chi fodloni'r gofynion canlynol:

Gofyniad statudol

Dan adran 21(2) Deddf Llysoedd 1971, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990, ni fydd unrhyw un yn gymwys i'w benodi'n Gofiadur oni bai fod ganddo gymhwyster 10 mlynedd Llys y Goron neu 10 mlynedd llys sirol yn ystyr adran 71 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990.

I'r rheini sydd am ddibynnu ar eu cymwysterau fel twrneiod, gan gynnwys y rheini sy'n dal swydd farnwrol ar gyflog, cynghorwyd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol fod yn rhaid iddynt ymddangos ar Rôl y Twrneiod er mwyn bodloni'r cymwysterau penodi statudol.

Gofynion anstatudol

Bydd angen i'r rheini a benodir i swyddi Siawnsri fod yn addas ar gyfer awdurdodiad cynnar adran 9(1) i wrando materion Siawnsri Uchel Lys, os nad ydynt eisoes wedi'u hawdurdodi. Yr Arglwydd Brif Ustus fydd yn rhoi awdurdodiad adran 9(1), gyda chydsyniad y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ac ar ôl ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor.

Bydd angen i'r rheini a benodir i swyddi Teulu fod yn addas ar gyfer awdurdodiad cynnar i wrando Achosion Cyfraith Gyhoeddus, os nad ydynt eisoes wedi'u hawdurdodi. Llywydd yr Adran Deulu fydd yn rhoi awdurdodiad ar gyfer gwrando achosion Cyfraith Gyhoeddus.

Oed

Nid oes unrhyw gyfyngiad oedran isaf ar ymgeiswyr am swyddi Cofiadur. Polisi'r Arglwydd Ganghellor ar gyfer Cofiaduron yw y byddant yn ymddeol yn 65 oed. Rhaid i oedran person a benodir yn Gofiadur ganiatáu ar gyfer cyfnod rhesymol o wasanaeth cyn ymddeol, sef tua thair blynedd fel arfer.

Cenedligrwydd

Rhaid i chi lenwi datganiad o'ch cenedligrwydd yn y Ffurflen Gais. I fod yn gymwys ar gyfer y swydd hon, rhaid i chi fod yn ddinesydd:

- y Deyrnas Unedig; neu
- un o wledydd eraill y Gymanwlad; neu
- Gweriniaeth Iwerddon.

Preswyliaeth

Dywed Telerau ac Amodau swydd Cofiadur y bydd unrhyw benodiad ar ôl 1 Ionawr 2008 yn amodol ar i'r Arglwydd Ganghellor gael ei fodloni y bydd y person, adeg penodi, yn byw o fewn pellter teithio rhesymol bob dydd i'r llysoedd y bydd yn eistedd ynddynt fel rheol (edrychwch ar baragraff 49 y Telerau ac Amodau sydd ar gael ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn www.judicialappointments.gov.uk). Mae rhagor o wybodaeth am y Telerau ac Amodau ar gael gan Helen Williams yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder (0207 210 8934).

Yr iaith Gymraeg

Mae gallu siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer dwy swydd yn yr awdurdodaeth Troseddol a dwy swydd yn yr awdurdodaeth Sifil/Teulu ar Gylchdaith Cymru. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y chwe swydd arall ar Gylchdaith Cymru. Cynghorwyd y Comisiwn

Penodiadau Barnwrol bod gallu siarad Cymraeg yn golygu, at ddibenion yr ymarfer hwn, y gallu i siarad a deall Cymraeg ar lefel sylfaenol.

Bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau diwrnod dethol ac sydd wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, a gofynnir i'r ymgeiswyr hynny enwebu canolwr arall i gadarnhau eu gallu.

Twrneiod Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Twyll Difrifol a Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth

Mae Twrneiod sy'n gweithio yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Twyll Difrifol a Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth yn gymwys i wneud cais ac ystyrir eu ceisiadau ar sail teilyngdod ochr yn ochr â cheisiadau eraill. Mae polisi'r Arglwydd Ganghellor sy'n ymwneud â defnyddio Twrneiod o'r fath a benodir yn Gofiaduron wedi'i nodi ar dudalen 6.

Cymeriad

Mae'n ofynnol i'r CPB drwy statud benodi unigolion o gymeriad da yn unig. Er mwyn gwneud yr asesiadau hyn, rydym wedi datblygu Arweiniad ar Gymeriad Da sydd ar gael ar ein gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk. Hefyd, gallwch ysgrifennu atom i ofyn am gopi (gweler adran 'Cysylltiadau a Gwybodaeth Bellach' y Pecyn Gwybodaeth hwn i gael ein manylion cyswllt).

Mae'r Arweiniad ar Gymeriad Da yn rhoi rhyw syniad i chi ynghylch a oes unrhyw beth yn eich ymddygiad yn y gorffennol neu eich amgylchiadau presennol a allai effeithio ar eich cais am benodiad barnwrol. Dylech eu darllen yn ofalus cyn llenwi'r Ffurflen Gais.

Cymeriad da – cwestiynau a datganiadau

Mae'n ofynnol i chi ateb nifer o gwestiynau yn y Ffurflen Gais sy'n ymwneud â chymeriad da a rhaid i chi wneud datganiadau priodol yn ôl y gofyn.

Nid yw ymgeiswyr am benodiadau barnwrol yn cael eu gwarchod gan adrannau 4(2) a 4(3) Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Felly, dylid datgan yn ysgrifenedig unrhyw euogfarnau a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai sydd wedi darfod dan y Ddeddf honno (Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975). Rhaid i chi roi manylion pob trosedd yr ydych wedi eich cael yn euog ohono neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad ag ef. Dylai'r manylion gynnwys natur pob trosedd, dyddiad yr euogfarn neu'r rhybuddiad, a'r gosb a gafwyd.

Lle bo achos o unrhyw fath yn yr arfaeth, dylech roi manylion y trosedd yr ydych wedi'ch cyhuddo ohono neu'r broses ddisgyblu yr ydych yn rhan ohoni ac, os yw hynny'n hysbys, dyddiad gwrando'r achos. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni am ganlyniad unrhyw achos a ddaw i ben tra bo'ch cais yn cael ei ystyried. Yn yr un modd, os cewch eich cyhuddo o unrhyw drosedd neu os caiff achos ei ddwyn yn eich erbyn ar ôl cyflwyno'ch cais, dylech roi gwybod i ni ar unwaith (gweler adran 'Cysylltiadau a Gwybodaeth Bellach' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Ymhob achos, darparwch gymaint ag y bo modd o fanylion a nodwch a oes unrhyw ffactorau lliniarol y dylai'r CPB, yn eich barn chi, eu hystyried wrth asesu eich cymeriad da.

Archwiliadau cymeriad da

Bydd y CPB hefyd yn cynnal archwiliadau o'r holl ymgeiswyr y mae'n bwriadu eu hargymell ar gyfer eu penodi. Darperir rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau hyn ar wahân i'r ymgeiswyr perthnasol.

Gall peidio â datgan unrhyw faterion a ddaw i'r golwg yn sgil yr archwiliadau fod yn niweidiol i ganlyniad eich cais.

ADDASIADAU RHESYMOL

Mae'r CPB wedi ymrwymo i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol sy'n ofynnol i sicrhau y gallwch gyfrannu'n deg at y broses ddethol. Mae'r Ffurflen Gais yn gofyn i chi nodi unrhyw drefniadau ac addasiadau y bydd eu hangen arnoch o bosibl. Ystyrir y ceisiadau ar sail achos-wrth-achos ac ni ddefnyddir y wybodaeth a roddir i wneud penderfyniadau wrth ddethol.

Os cewch eich argymell ar gyfer y swydd, ystyrir addasiadau rhesymol os oes gennych anabledd yn ôl ystyr y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, fel y gwneir ar gyfer barnwyr sy'n ymarfer ac sy'n datblygu nam neu gyflwr iechyd hirdymor. Caiff unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi i dderbyn penodiad eu trafod ar wahân gyda chi gan Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ar ôl i'r CPB wneud ei argymhelliad.

DISGRIFIAD SWYDD

Mae'r wybodaeth hon wedi'i darparu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

PRIF WEITHGAREDDAU

Dyma brif ddyletswyddau Cofiaduron:-

Paratoi ar gyfer treialon a rheoli achosion

Yn yr Awdurdodaeth Troseddol

- Darllen a chymathu'r papurau mewn achos cyn iddo ddechrau, gan gynnwys y ditiad, datganiadau tystion, arddangosion dogfennol ac (mewn achosion lle gwyddys y byddir yn pledio'n euog) adroddiadau cyn-dedfrydu.
- Chwarae rhan fyw fel sy'n briodol wrth benderfynu sut y dylid ymdrin ag achos, o'i ddechrau hyd nes y rhoddir dedfryd.

Yn yr Awdurdodaethau Sifil a Theulu

- Darllen a chymathu papurau'r achos cyn i wrandawiad, neu'r treial, ddechrau.
- Hyrwyddo amcan pennaf y Rheolau Trefniadaeth Sifil drwy reoli achosion yn ddiwyd nes y'u cwblheir. Mae diwyd-reoli achosion yn cynnwys -
- Annog y partïon i gydweithredu â'i gilydd yn y modd yr ymdrinnir â'r achos.
- Nodi'r materion i'w hystyried yn gynnar yn y broses.
- Penderfynu'n brydlon pa faterion y mae angen ymchwilio'n llawn iddynt a'u hanfon i dreial a delio â'r gweddill yn ddiannod.
- Penderfynu ym mha drefn y mae penderfynu ar faterion.
- Annog y partïon i ddefnyddio trefn amgen i ddatrys anghydfod os yw'r llys o'r farn bod hynny'n briodol a hwyluso'r ffordd i ddefnyddio trefn o'r fath.
- Helpu'r partïon i setlo'r achos yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol.
- Pennu amserlenni neu reoli hynt yr achos fel arall.

- Ystyried a fyddai manteision tebygol cymryd cam neilltuol yn cyfiawnhau'r gost o'i gymryd.
- Delio â chynifer â phosibl o agweddau ar yr achos ar yr un achlysur.
- Delio â'r achos heb fod angen i'r partïon ddod i'r llys.
- Gwneud defnydd llawn o dechnoleg.
- Rhoi cyfarwyddiadau i sicrhau bod treial achos yn mynd rhagddo'n gyflym ac yn effeithlon.

Llywyddu dros achosion llys

Ym Mhob Awdurdodaeth

- Rheoli (yn unol â'r gyfraith a'r ymarfer perthnasol) y modd y cynhelir achosion.
- Sicrhau bod y partïon ar dir gwastad, a sicrhau, pa un a ydynt wedi'u cynrychioli ai peidio, y galluogir nhw i gyflwyno'u hachosion, ac iddynt gael eu hystyried, cyn llawned a theced â phosibl;
- Ym mhob achos, hybu'r ffordd gyflymaf o ymdrin â'r busnes sy'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder;
- Cynnal awdurdod ac urddas y Llys.
- Penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith a threfniadaeth a allai godi yn ystod achos.

Yn yr Awdurdodaeth Troseddol

- Gwneud nodyn cywir o rannau perthnasol y dystiolaeth.
- Crynhoi ar gyfer rheithgor.
- Dedfrydu diffynyddion sydd wedi'u dyfarnu'n euog yn unol â'r gyfraith ac amgylchiadau'r achos.
- Mae dyletswyddau eraill yn cynnwys, er enghraifft, penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â chostau (gan gynnwys gorchmynion costau ofer); delio â gwarantau mainc; a gwrando ceisiadau am fechnïaeth.

Yn yr Awdurdodaethau Sifil a Theulu

- Neilltuo i bob achos gyfran briodol o adnoddau'r llys, tra'n ystyried yr angen i neilltuo adnoddau i achosion eraill a delio â'r achos mewn ffyrdd sy'n gymesur i: -

  Yn yr Awdurdodaeth Sifil

  - y swm o arian sydd dan sylw;
  - pwysigrwydd yr achos;
  - cymhlethdod y materion; a
  - sefyllfa ariannol pob parti.

  Yn yr Awdurdodaeth Teulu

  - pwysigrwydd yr achos; a
  - cymhlethdod y materion.

Dyfarniad

Ym Mhob Awdurdodaeth

- Penderfynu ar achosion drwy ganfod y ffeithiau, cymhwyso'r gyfraith berthnasol iddynt a rhoi dyfarniad sydd wedi'i resymu.
- Penderfynu ar geisiadau a ymleddir a materion eraill drwy ystyried y papurau a'r dystiolaeth a gyflwynir mewn unrhyw wrandawiad a gwneud canfyddiadau ffeithiol, cymhwyso'r gyfraith berthnasol a, lle bo hynny'n briodol, rhoi dyfarniad wedi'i resymu.
- Goruchwylio geiriad dyfarniadau a gorchmynion y Llys.

Yn yr Awdurdodaeth Sifil

- Asesu a dyfarnu iawndal a chostau, penderfynu ar y swm sydd i'w dalu a sut y mae i'w dalu a gwneud gorchmynion meddiannu.

CYFRIFOLDEBAU ERAILL

- Mae angen i Gofiaduron fod yn ymwybodol o'r datblygiadau cyfreithiol diweddaraf. Mae hyn yn golygu llawer iawn o ddarllen nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r achosion sydd ar brawf ganddynt.
- Bydd rhaid i Gofiaduron sydd newydd eu penodi fynychu cwrs sefydlu preswyl y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol mewn naill ai trefn droseddol, sifil neu deulu cyn derbyn Warant Frenhinol a fydd yn eu galluogi i eistedd yn yr awdurdodaethau hynny. Maent hefyd yn mynychu cyrsiau parhad bob hyn a hyn a digwyddiadau undydd yn y Rhanbarth, megis cynadleddau dedfrydu.

DEFNYDDIO

Polisi'r Arglwydd Ganghellor yw bod twrneiod sy'n gweithio yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Twyll Difrifol a Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth yn cael eistedd fel Cofiaduron mewn gwaith sifil yn unig (ac eithrio materion sifil sy'n cynnwys eu hadran eu hunain o'r Llywodraeth). Os caiff twrneiod Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Twyll Difrifol a Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth eu penodi yn Gofiaduron, gall eu cyfleoedd i eistedd fod yn gyfyngedig iawn.

GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth bellach sy'n ymwneud ag awdurdodaeth Cofiaduron a Thelerau ac Amodau swydd Cofiadur ar gael ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn y cyfeiriad canlynol: www.judicialappointments.gov.uk.

Polisi'r Arglwydd Ganghellor yw y dylai Cofiaduron fod wrthi yn ymarfer eu proffesiwn (h.y. fel bargyfreithiwr neu dwrnai) neu eu bod yn dal swydd farnwrol gyda chyflog. Bydd y Comisiwn yn ystyried pob cais ar sail teilyngdod ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael.

LLEOLIAD Y SWYDDI GWAG

Bydd angen i chi nodi ar eich Ffurflen Gais pa swydd neu swyddi gwag rydych chi'n gwneud cais amdanynt. Dim ond ar gyfer eich penodi i'r swyddi gwag yr ydych wedi gwneud cais amdanynt y cewch eich ystyried. Caiff ymgeiswyr wneud cais am swyddi gwag mewn mwy nag un awdurdodaeth ac ar fwy nag un Gylchdaith. Ond edrychwch ar y wybodaeth sy'n ymwneud â phreswyliaeth a roddwyd yn gynharach yn yr adran 'Ydych chi'n Gymwys' yn y Pecyn Gwybodaeth hwn.

CYLCHDAITH	**AWDURDODAETH**	**NIFER Y SWYDDI GWAG**
Gogledd Ddwyrain Lloegr	Siawnsri	7
Gogledd Ddwyrain Lloegr	Troseddol	22
	Sifil	8
	Sifil / Teulu	2
	Cyfraith Gyhoeddus (Teulu)	9
Gogledd Lloegr	Troseddol	8
	Teulu/Sifil	10
Cymru	Troseddol	7
	Cyfraith Gyhoeddus (Teulu)	3

Y BROSES DDETHOL

Ffurflen gais

Caiff ceisiadau ar gyfer swyddi gwag Sifil, Troseddol, Teulu/Sifil a Chyfraith Gyhoeddus (Teulu) eu hasesu yn ôl y nodweddion a'r galluoedd a nodir ar dudalen 5 y Ffurflen Gais:

Pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais am swydd wag Siawnsri, ac oherwydd y bydd angen i'r rheini a benodir i'r swyddi hyn fod yn addas ar gyfer awdurdodiad adran 9(1) i wrando materion Siawnsri Uchel Lys, caiff eu cais ar gyfer y swyddi gwag hyn eu hasesu yn ôl yr ail gyfres o nodweddion a galluoedd a nodir ar dudalen 6 y Ffurflen Gais.

Gallwch ddefnyddio holl ystod eich gwaith a'ch profiad personol i ddangos y nodweddion a'r galluoedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwaith gwirfoddol neu unrhyw gyhoeddiad yr ydych wedi cyfrannu ato. Byddwch yn benodol wrth roi gwybodaeth.

Amserlen

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau	29 Ionawr 2008
Dyddiad dros dro ar gyfer y profion cymhwyso	Un dyddiad yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 10 Mawrth
Dyddiadau dros dro ar gyfer y diwrnodau dethol	28 Ebrill - 14 Mai

Llunio rhestr fer

Cam cyntaf y broses yw prawf cymhwyso. Mae disgrifiad o'r prawf cymhwyso ar www.judicialappointments.gov.uk . Byddwch yn gallu sefyll y prawf ar un diwrnod a gallwch nodi ar eich Ffurflen Gais lle y byddai orau gennych wneud hynny. Mae'n bosibl na allwn gynnig i chi sefyll y prawf yn ysgrifenedig yn y lleoliadau hyn, ac fellymae'n debygol y gwahoddir yr ymgeiswyr sydd am sefyll y prawf yn ysgrifenedig i leoliad yn Llundain.

Ar ôl y prawf, os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i ddiwrnod dethol yn Llundain. Ar y Ffurflen Gais dylech nodi'r awdurdodaeth rydych eisiau cael eich asesu ar ei gyfer ar y diwrnod dethol (dim ond un cewch ei ddewis).

Geirdaon

Gallwn geisio gwybodaeth gan bobl sydd mewn sefyllfa dda i roi sylwadau ar sut yr ydych chi'n bodloni'r nodweddion a'r galluoedd. Cysylltir â chanolwyr fel arfer cyn i'r diwrnod dethol ddigwydd ac fe'u hanogir i ddefnyddio deunydd gwerthuso os yw ar gael. Fel arfer bydd y deunydd a ddarperir gan y canolwyr yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir ar y diwrnod dethol a phenderfyniadau dethol terfynol Comisiynwyr.

A enwebir gan yr ymgeiswyr

Cewch eich gwahodd i enwebu hyd at dri o ganolwyr sy'n eich adnabod yn dda naill ai'n bersonol neu'n broffesiynol. Os byddwch yn ymddangos yn rheolaidd gerbron llys neu dribiwnlys, rhaid i un o'ch canolwyr fod yn Farnwr Preswyl neu'r unigolyn cyfatebol yn y llys neu'r tribiwnlys lle byddwch yn ymddangos amlaf.

A enwebir gan y CPB

Mae'n bosibl hefyd y bydd y CPB yn gofyn am eirdaon gan y rhai a nodir yn adran 'Canolwyr a Enwebir gan y CPB' y pecyn hwn.

Darparwch enw, teitl, swydd a chyfeiriad eich canolwyr proffesiynol a barnwrol perthnasol. Gallwch ddweud wrthym hefyd os nad ydych yn dymuno i ni gysylltu â'ch canolwr proffesiynol perthnasol ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i chi roi rhesymau. Os nad ydych yn dal swydd

farnwrol ar hyn o bryd a heb gynnwys eich canolwr proffesiynol perthnasol, mae'n rhaid i chi awgrymu canolwr arall sy'n gyfarwydd â'ch gwaith.

Gwrthdaro rhwng buddiannau

Rhestrir y Comisiynwyr Penodiadau Barnwrol yng nghefn y pecyn hwn. Ni ddylech enwebu Comisiynydd fel canolwr. Dylech nodi yn y Ffurflen Gais hefyd os ydych yn perthyn mewn unrhyw ffordd i unrhyw un o'r Comisiynwyr neu'n hysbys iddynt, a rhoi manylion.

Canlyniad yr ymarfer dethol

Caiff rhestrau ar wahân eu llunio ar gyfer pob swydd wag, ac wedyn gwneir argymhellion ar gyfer penodi ar sail teilyngdod gan ddefnyddio'r rhestrau hynny.

Fe'ch hysbysir am ganlyniad eich cais drwy lythyr.

Os byddwch yn aflwyddiannus, gallwch ofyn am esboniad ysgrifenedig. Dylech wneud y cais hwn o fewn 6 wythnos i ddyddiad y llythyr a oedd yn eich hysbysu na fuoch yn llwyddiannus. Ceisiwn ymateb i'ch cais o fewn pedair wythnos waith.

Y Weithdrefn Gwyno

Os byddwch yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, dylech gyfeirio at drefn gwyno gyhoeddedig y CPB, sydd ar gael oddi ar ein gwefan, neu fel copi caled ar gais.

CYSYLLTIADAU A GWYBODAETH BELLACH

Cael ffurflen gais

Mae'r holl wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am yr ymarfer dethol hwn ar gael yn www.judicialappointments.gov.uk (ymarferion dethol cyfredol).

Gellir derbyn y Ffurflen Gais ar gyfer yr ymarfer dethol hwn ar ffurf electronig trwy ei lawrlwytho oddi ar y wefan.

Cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol (GCPB) yn y CPB os ydych am gael copi caled o'r Ffurflen Gais neu'r Pecyn Gwybodaeth, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cymhwysedd neu ynghylch cyflwyno'ch cais.

Os bydd angen y ffurflen a/neu'r pecyn arnoch mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn Braille, cysylltwch â'r tîm GCPB.

Cydnabod eich cais

Dylech dderbyn cydnabyddiaeth o'ch cais cyn pen 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad y derbynnir eich cais. Os na, dylech gysylltu â'r tîm GCPB dros y ffôn neu'r e-bost.

Manylion cysylltu

1. GCPB

Cyfeirnod: 00349 (Defnyddiwch y cyfeirnod hwn ar bob gohebiaeth)

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol/Judicial Appointments Commission
2nd Floor, Steel House
11 Tothill Street
Llundain
SW1H 9LH

DX 149822 WESTMINSTER 6

E-bost: jaas@jac.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7210 0123

2. Tîm yr Ymarfer Dethol:

Jane Pickering a Tony Bellringer	020 7210 8957/0335	Cyfarwyddwyr Cynorthwyol
Andrew Digby a Kate Williams	020 7210 0341/0336	Dirprwy Reolwyr yr Ymarfer Dethol
Ron Brady/Anne-Marie Harris	020 7210 1481/8974	Gweinyddwyr yr Ymarfer Dethol

E-bost: Courtsteama@jac.gsi.gov.uk

Ffacs: 020 7210 0300

3. Cyfarwyddwr:

Jane Andrews 020 7210 1484

CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y CPB

Mae'n bosibl y bydd y CPB yn gofyn am eirdaon o'r categorïau a restrir isod.

Canolwyr barnwrol (os yw'n berthnasol)

Os ydych yn dal swydd farnwrol nad yw ar y rhestr hon, cysylltwch â'r CPB er mwyn inni allu ystyried pwy ddylai gael ei enwebu fel eich canolwr barnwrol.

Os ydych yn eistedd ar Dribiwnlys, Llywydd y Tribiwnlys neu berson cyfatebol.

Os ydych yn Feistr neu'n Gofrestrydd yn yr Uchel Lys neu'n Ddirprwy Feistr neu Gofrestrydd, yr Uwch Feistr neu Gofrestrydd perthnasol.

Os ydych yn Farnwr Costau neu'n Ddirprwy Farnwr Costau, yr Uwch Farnwr Costau.

Os ydych yn Farnwr Rhanbarth neu'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth, y Barnwr Sifil Dynodedig lleol.

Os ydych chi'n Farnwr Rhanbarth neu'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu yr Uwch Farnwr Rhanbarth (PGAD).

Os ydych chi'n Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), neu'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), yr Uwch Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon).

Canolwr proffesiynol

Os ydych yn dwrnai, eich partner rheoli neu bartner ecwiti perthnasol.

Os ydych yn fargyfreithiwr, Pennaeth eich Siambrau.

Os ydych yn gyflogedig, eich rheolwr llinell neu gyfatebol.

COMISIYNWYR Y CPB

Cadeirydd y CPB

Y Farwnes Usha Prashar CBE

Aelodau

Y Fonesig Lorna Boreland-Kelly DBE

Yr Athro Fonesig Hazel Genn DBE CF

Mr Ustus John Goldring

Y Fonesig Ustus Heather Hallett DBE

Ei Hanrhydedd y Barnwr Frances Kirkham

Syr Geoffrey Inkin OBE

Mr Edward Nally

Ms Sara Nathan

Barnwr Rhanbarth Charles Newman

Ei Anrhydedd y Barnwr David Pearl

Mr Francis Plowden

Ms Harriet Spicer

Mr Jonathan Sumption OBE CF

Yr Arglwydd Ustus Roger Toulson